**Ref: EUR-03-00(min)**

# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd

## COFNODION

**Dyddiad:** 30ain Tachwedd 2000

**Amser:** 2.00 pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2

**Yn Bresennol:** **Aelodau**

| | |
|---|---|
| Rhodri Morgan (Cadeirydd) | Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| Mick Bates | Democrat Rhyddfrydol: Sir Drefaldwyn |
| Rosemary Butler | Llafur: Gorllewin Casnewydd |
| Christine Chapman | Llafur: Cwm Cynon |
| Val Feld | Llafur: Dwyrain Abertawe |
| John Griffiths | Llafur: Dwyrain Casnewydd |
| Ieuan Wyn Jones | Plaid Cymru: Ynys Môn |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwr: Canol De Cymru |
| Phil Williams | Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru |

| | |
|---|---|
| Elin Jones, AC | Aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau |
| Catherine Eva | Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru |
| Jos Gallagher | Cyfarwyddwr, Canolfan Ewropeaidd Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Hugh Rawlings | Pennaeth, Yr Is-adran Materion Ewropeaidd |
| Charles Willie | Pennaeth, Uned Polisi Cydraddoldeb |
| Des Clifford | Swyddfa’r Cynulliad ym Mrwsel |
| | |
| Julie Bragg | Clerc Dros Dro y Pwyllgor |
| Adrian Green | Dirprwy Glerc Dros Dros y Pwyllgor |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan: Aelodau’r Pwyllgor, Nick Bourne a Rhodri Glyn Thomas; Brian Smith, Pwyllgor y Rhanbarthau; Rose D’Sa a George Wright, ECOSOC; a Jonathan Evans, Eluned Morgan, Glenys Kinnock, Eurig Wyn a Jill Evans, ASE.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**

**Papur:** EUR-03-00(p.1)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd y rhai oedd yn bresennol yn y pwyllgor, yn benodol Tomas Rosander, y Gweinidog o Lysgenhadaeth Sweden, Hans de Belder, Ysgrifennydd Cyffredinol Cynulliad yr Undebau Ewropeaidd, a Peter Graham-Woollard a John Casterton o Dasglu Ewrop Cymru. Croesawodd hefyd aelodau newydd y Pwyllgor a etholwyd ar 9 Tachwedd: Arweinydd yr Wrthblaid, Ieuan Wyn Jones, Rosemary Butler, John Griffiths a Christine Chapman.

1.2 Gwahoddodd y Cadeirydd Hans de Belder i roi cyflwyniad byr ar waith Cynulliad y Rhanbarthau Ewropeaidd i’r Pwyllgor. Dywedodd Mr de Belder ei fod yn fraint bod yng Nghymru i annerch y Pwyllgor a bod hon yn foment hanesyddol gan mai dyma’r tro cyntaf i gynrychiolydd o Gynulliad y Rhanbarthau Ewropeaidd (AER) ymweld â Chymru.

1.3 Roedd yr AER yn bwysig, am y dylem ystyried ein bod yn Ewrop gyda rhanbarthau, yn lle adeiladu Ewrop o ranbarthau, gan nad oedd modd rhoi diffiniad unigol o ranbarth Ewropeaidd. Roedd yr AER yn dra gwahanol i Bwyllgor y Rhanbarthau, a oedd yn un o sefydliad’r Undeb Ewropeaidd. Roedd yr AER yn fforwm gwleidyddol gwirfoddol a fwriadwyd i hyrwyddo a datblygu cydweithrediad rhwng y rhanbarthau; gyda 260 o ranbarthau sy’n talu, llawer ohonynt yn Nwyrain Ewrop, roedd ganddo rwydwaith anferth o gysylltiadau â phrofiadau helaeth. Amlinellodd Mr de Belder y meysydd blaenoriaethau canlynol ar gyfer AER:

- Ehangu: yr her fwyaf. Byddai sawl rhanbarth yn troi’n roddwyr yn lle derbynwyr arian yr Undeb Ewropeaidd o ganlyniad.
- Ieithoedd: Byddai cynhadledd yn cael ei chynnal ar y mater yn 2001.

- Hyfforddiant a chyfnewid diwylliannol ar gyfer gweision cyhoeddus: roedd y rhain yn llwyddiannus iawn.

1.4 Ailadroddodd Mr de Belder ei wahoddiad i Brif Weinidog Cymru a’r Pwyllgor anfon cynrychiolwyr i arsylwi Cynulliad Cyffredinol Cynulliad y Rhanbarthau Ewropeaidd i’w gynnal yn y Ffindir, ar 7 a 8 Rhagfyr. Awgrymodd y byddai hon yn ffordd ddefnyddiol o ganfod gwerth yr AER, gan bod dros 200 o ddirprwyaethau gwahanol yn debygol o fynychu’r gynhadledd gan gynnwys rhai o’r Alban. Cytunodd y Pwyllgor i ystyried anfon cynrychiolydd os byddai’n ymarferol gwneud hynny.

1.5 Yn ystod y drafodaeth, holodd yr Aelodau am weithdrefnau’r AER ar gyfer ystyried ehangu. Eglurodd Mr de Belder bod un o bwyllgorau AER wedi ystyried ehangu yn benodol. Fodd bynnag, roedd yn fater mor fawr oedd yn gorgyffwrdd â chymaint o feysydd eraill, gan gynnwys effeithio’n fawr ar les cymdeithasol, fel ei fod bellach yn cael ei ystyried gan nifer o bwyllgorau AER. Gofynnodd yr Aelodau hefyd a oedd gwaith yr AER yn dyblygu gwaith y Comisiwn. Roedd Mr de Belder o’r farn bod peth gorgyffwrdd ond nad oedd hyn yn broblem o anghenraid. Gallai’r AER ddarparu atebion eraill a oedd weithiau’n gyflymach i faterion nad oedd Pwyllgor y Rhanbarthau hwyrach mewn sefyllfa i ymateb yn gyflym iddynt.

1.6 Yn dilyn cyflwyniad Mr de Belder, rhoddodd y Cadeirydd adroddiad ar gynhadledd o arweinwyr llywodraethau rhanbarthol â phwerau deddfwriaethol a fynychodd yn Barcelona yn ddiweddar. Cyfeiriodd at y protocol a grëwyd yn y cyfarfod yr oedd wedi ei ddosbarthu. Roedd y rhan fwyaf o’r materion a godwyd yn y ddogfen i’w croesawu; fodd bynnag, daeth Jim Wallace, Dirprwy Brif Weinidog Senedd yr Alban ac ef i’r casgliad nad oedd yn briodol i lofnodi’r papur ar yr adeg hon. Eglurodd Dr Rawlings y byddai’n well gan Lywodraeth y DU beidio â chael Siarter neu gonfensiwn ar lywodraeth ranbarthol sy’n ei rhwymo’n gyfreithiol, fel yr oedd y protocol yn ei argymell. Ym marn Llywodraeth y DU, byddai’r canllawiau yn fwy priodol. Yr hyn a greodd y diddordeb mwyaf oedd yr argymhelliad i sefydlu rhwydwaith o lywodraethau rhanbarthol i gyfnewid arfer gorau ar gynnwys y safbwynt ranbarthol yn y broses Ewropeaidd o wneud penderfyniadau.

1.7 Nododd y Cadeirydd bod Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, wedi arwain dirprwyaeth y DU yn y Cyngor Ieuenctid ym Mrwsel ar 9 Tachwedd, yn ogystal â mynychu’r Cyngor Addysg. Roedd Carwyn Jones hefyd wedi mynychu Cyngor Amaethyddol yn ddiweddar. Byddai Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn mynychu Cyngor Iechyd ym mis Rhagfyr a byddai Sue Essex, Gweinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd, yn mynychu Cyngor yr Amgylchedd, hefyd ym mis Rhagfyr. Gwahoddodd y Cadeirydd Jane Davidson i roi adroddiad byr i’r Pwyllgor am ei hymweliad.

1.8 Dywedodd Jane Davidson iddo fod yn fraint iddi arwain dirprwyaeth y DU yn y Cyngor Ieuenctid gan mai dyma’r tro cyntaf i Weinidog y Cynulliad wneud hynny. Nododd bod "ieuenctid" yn fater datganoledig, ac er bod llywodraeth y DU yn ystyried papur gwyn ar ieuenctid, roedd Cabinet y Cynulliad wedi cynhyrchu papur ymgynghorol y Cynulliad ei hun o’r enw "Ymestyn Hawl". Byddai’n siarad â David Blunkett er mwyn datblygu mentrau ymhellach yn y maes hwn a chynnal ei chyfranogiad yng ngweithgareddau’r Cyngor Ieuenctid.

1.9 Dywedodd Des Clifford, pan fyddai Gweinidogion y Cynulliad yn cynrychioli’r DU ym Mrwsel, ei fod o gymorth mawr wrth godi’r proffil o Gymru a’r Cynulliad a’r ymwybyddiaeth ohonynt. Atgoffodd y Pwyllgor

nad oedd cyfleoedd yn bodoli 9 mis yn ôl ar gyfer cynrychiolaeth o’r fath yn yr arena Ewropeaidd ond bellach galluogwyd Gweinidogion y Cynulliad i gynrychioli lles Cymru mewn pedwar maes gwahanol mewn Cynghorau Gweinidogion neu byddai modd iddynt wneud hynny. Roedd hyn gam mawr ymlaen.

1.10 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau na fyddai papur Canolfan Ewropeaidd Cymru (WEC) ar y goblygiadau i Gymru o ehangu’r Undeb Ewropeaidd yn cael ei drafod yn y cyfarfod. Byddai papur newydd ar ehangu yn cael ei drafod yng nghyfarfod bwrdd y WEC ym mis Rhagfyr, a byddai’n synhwyrol dychwelyd at y pwnc yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr. Gofynnodd yr aelodau pa faterion oedd yn ymwneud ag ehangu y gellid eu codi yn yr Uwch Gynhadledd Ewropeaidd yn Nice. Eglurodd Dr Rawlings hwyrach na fyddai rhai o oblygiadau ehangu, megis ffurf Senedd Ewrop yn y dyfodol, yn cael eu trafod yn Nice ond y ceid trafodaeth fanwl bellach ar y mater hwnnw yn ystod y flwyddyn ganlynol ar lefel Ewropeaidd a lefel y DU.

1.11 Rhoddodd John Griffiths ac Elin Jones adroddiad ar eu sesiynau llawn cyntaf o Bwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel. Dywedodd Mr Griffiths fod lefel cynrychiolaeth y merched yn y Cynulliad ac yn arbennig y ffaith bod yna Weinidog Cyllid benywaidd wedi creu argraff dda ar y rhai yr oedd ef wedi cyfarfod â hwy. Lleisiodd ei bryder o ran sicrhau bod y Cynulliad yn ymwybodol o gyfarwyddiaethau nesaf y CE. Dywedodd Ms Jones bod peth siom nad oedd Cymru’n cyfrannu at rai cynlluniau pwysig ar hyn o bryd, megis cynllun mynediad i ffermwyr ifanc.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Rôl Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn y Dyfodol**

**Papurau:** EUR-03-00(p.2), EUR-03-00(p.3) a EUR-03-00(p.4)

2.1 Dosbarthwyd papurau a gyflwynwyd gan Blaid Cymru a’r Democratiaid Rhyddfrydol ar rôl y Pwyllgor yn y dyfodol i aelodau’r Pwyllgor. Gan nad oedd cynrychiolydd o blaid y Democratiaid Rhyddfrydol yn bresennol, cyflwynodd Ieuan Wyn Jones farn Plaid Cymru. Gan awgrymu y dylai’r Pwyllgor gyfarfod yn fwy rheolaidd, canolbwyntiodd ar dri maes allweddol.

- Ni roddir cyfleoedd i’r Pwyllgor archwilio’r ddeddfwriaeth ddrafft a lunnir gan y Comisiwn. Er iddo gydnabod nad oedd digon o amser nac adnoddau i ymgymryd â rôl archwilio lawn, dylai archwilio detholus fod yn bosibl.
- Dylai dulliau hefyd fodoli lle y gallai’r Pwyllgor gyflwyno barn i Weinidogion y Cynulliad cyn cyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion neu Uwch Gynhadledd pan fyddant yn cynrychioli Cymru. Yn yr un modd, dylai gweithdrefn fodoli lle y gallai’r aelodau drafod canlyniadau ymweliadau o’r fath gyda’r Gweinidogion. Roedd Plaid Cymru hefyd o’r farn ei fod yn hanfodol i’r Cynulliad ystyried materion Ewropeaidd pwysig, megis yr Euro, yn y sesiwn lawn.
- Roedd hefyd yn gryf o’r farn y dylai bod modd i’r Cynulliad gael llais yng nghyfarfod nesaf Uwch Gynhadledd yr Undeb Ewropeaidd oedd i’w gynnal yn Nice.

2.2 Eglurodd y Cadeirydd y byddai aelodau’r Cabinet yn ceisio dylanwadu ar yr agendâu Ewropeaidd amrywiol ar ran Cymru. Am mai un aelod-wladwriaeth oedd y DU, byddai gan Weinidog y Cynulliad a oedd yn arwain dirprwyaeth o’r DU neu’n cymryd rhan ynddi fwy o ddylanwad yn naturiol drwy fod yn bresennol, gwneud cyfraniadau a dysgu sut i chwarae’r gêm Ewropeaidd. Roedd felly’n bwysig bod Aelodau’r Cabinet yn dod yn fwy profiadol o ran dylanwadu neu arwain dirprwyaethau. Dyma a oedd yn digwydd ond nid oedd bob amser yn ymarferol i Weinidog friffio’r Pwyllgor neu’r Cynulliad cyn cyfarfodydd tebyg o ddirprwyaeth

Cyngor y Gweinidogion.

2.3 Awgrymodd yr Aelodau bod barn Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â rôl y Pwyllgor yn gywir ar y cyfan, h.y. bod barn draws-bynciol gan y Pwyllgor am faterion Ewropeaidd ond nad oedd ganddo rôl uniongyrchol o ran archwilio deddfwriaeth neu gyfarwyddiaethau Ewropeaidd. Fodd bynnag, teimlwyd nad oedd y Pwyllgor yn gweithredu mor effeithiol ag y gallai wrth hyrwyddo Cymru. Mynegwyd pryder ynglŷn â diofalwch posibl y Cynulliad mewn perthynas â chyfarwyddebau pwysig y Comisiwn Ewropeaidd. Teimlwyd y dylid rhyngweithredu gyda phwyllgorau pwnc yn y maes hwn er mwyn osgoi'r posibilrwydd bod y Pwyllgor yn cael ei ystyried fel siop siarad. Cytunwyd y gallai fod angen am rai materion traws-bynciol ond na ddylai hyn osod yr agenda ar gyfer gwaith y Pwyllgor. Dylai fod yn gallu gosod ei agenda ei hun. Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor gyfarfod yn fwy rheolaidd ac mewn gwirionedd y byddai'n cyfarfod ddwy waith yn ystod tymor y Gwanwyn.

2.4 O ran y cwestiwn o archwilio, esboniodd Hugh Rawlings bod y Pwyllgor eisoes wedi cytuno i ystyried rhaglen waith Flynyddol y Comisiwn er mwyn ei alluogi i dynnu sylw'r pwyllgorau pwnc priodol at feysydd pwysig o ran deddfwriaeth. Roedd yn ymwybodol bod y WEC hefyd yn bwriadu cymryd rhai camau gweithredu yn y maes hwn. Byddai mwy o ryngweithredu rhwng y Pwyllgor hwn a phwyllgorau eraill yn hanfodol yn y dyfodol. Nododd y gallai rôl y Pwyllgor yn y dyfodol haeddu ailystyriaeth o ystyried y bwriad i gynnwys gwaith yr Is-adran Materion Ewropeaidd mewn Is-adran Perthnasau Rhyngwladol newydd a chanddi gylch gorchwyl ehangach. Mewn perthynas ag agwedd arall, dywedodd mai syniad y swyddogion oedd cynhyrchu papurau ar gyfer y Pwyllgor. Roedd hwn yn arfer anarferol a hwyrach y byddai'r Pwyllgor yn dymuno ystyried y mater hwn ymhellach, gyda'r posibilrwydd o gael mwy o bobl i'w llunio. Roedd Des Clifford o'r farn bod rhaglen waith y Comisiwn yn bwysig iawn ac y dylid ei archwilio mewn cydweithrediad â'r 5 ASE yng ngoleuni eu gwybodaeth a'u profiadau.

2.5 Rhoddodd Val Field adroddiad ar gyfarfod a fynychodd yn Glasgow o Gadeiryddion y Pwyllgorau Ewropeaidd yn y DU. Wrth ystyried cylch gorchwyl holl Bwyllgorau Ewropeaidd y DU, roedd wedi dod i'r casgliad ei fod yn bosibl cael ymgymryd â'r rôl archwilio neu rôl gydlynu ond na allai ymgymryd â'r ddwy. Roedd lle i sicrhau cydlyniad mwy effeithiol ond hwyrach nad oedd yn briodol i Brif Weinidog Cymru gadeirio'r Pwyllgor os byddai'n mabwysiadu rôl archwilio. Byddai'n well i'r pwyllgorau pwnc gynghori Gweinidogion ar faterion y Cyngor Ewropeaidd yn hytrach nag i'r Pwyllgor Ewropeaidd wneud hynny. Fodd bynnag, roedd cyfle i'r pwyllgor hwn i roi sylw i faterion nad oeddent yn berthnasol i bwyllgorau eraill neu'n berthnasol i fwy nag un ohonynt. Roedd o'r farn, er mwyn gwneud ei rôl yn fwy effeithiol, y dylai'r Pwyllgor gyfarfod ddwy waith y tymor yn lle un waith. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Pwyllgor barhau i anfon cynrychiolydd i gyfarfodydd arfaethedig Cadeiryddion Ewropeaidd y DU bob 6 mis.

2.6 Wrth grynhoi, cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai Des Clifford yn rhoi adborth rheolaidd i'r Pwyllgor ar agenda'r Comisiwn; mai swyddogaeth pennaf y pwyllgorau pwnc oedd ystyried deddfwriaeth y Comisiwn Ewropeaidd; y dylid cynnal trafodaethau ar y meysydd yr oedd y Cynulliad yn ceisio dylanwadu arnynt; ac y dylai'r Arolwg nesaf o Weithdrefnau'r Cynulliad gyfeirio at hyn. Gofynnodd i'r swyddogion gynhyrchu papur ar rôl y Pwyllgor yn y dyfodol ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Blaenoriaethau Llywyddiaeth Sweden o'r Undeb Ewropeaidd**

**Cyflwyniad:** Thomas Rosander, Gweinidog, Dirprwy Bennaeth Cenhadaeth, Llysgenhadaeth Sweden

3.1 Rhoddodd Mr Rosander drosolwg o'r materion i'w dilyn gan Sweden yn ystod ei Lywyddiaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Byddai tri maes blaenoriaethu yn brif fyrdwn i Lywyddiaeth Sweden: sef ehangu, cyflogaeth a'r amgylchedd. Roedd Sweden o'r farn bod angen i'r Undeb Ewropeaidd ddangos ei fod yn undeb sy'n berthnasol i'w ddinasyddion a'i fod yn agored, yn dryloyw yn fodern ac yn broactif. Cydnabu mai ehangu oedd y broblem fwyaf cymhleth a hanfodol y bu'n rhaid i'r Undeb Ewropeaidd ei wynebu hyn yn hyn.

3.2 Nod Llywyddiaeth Sweden fyddai sefydlu fframwaith o ddiwygiadau economaidd. Gan ddefnyddio'r profiadau a enillwyd wrth drawsnewid economi Sweden yn llwyddiannus, byddai Sweden yn mynd i'r afael â'r galwadau byd-eang newydd megis technoleg gwybodaeth, trwy ddarparu gwell hyfforddiant a mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r rhyngrwyd. Byddent hefyd yn mynd i'r afael â gwerthoedd cymdeithasol. Byddai llywyddiaeth Sweden yn sicrhau bod busnesau bach yn cael eu hyrwyddo a bod dysgu gydol oes yn cael ei annog. Y nod pennaf fyddai cymryd camau tuag at sicrhau cyflogaeth lawn ar gyfer dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd trwy greu'r amgylchedd gywir. Roedd datblygiad cynaladwy yn allweddol, yn creu'r cydbwysedd cywir ac yn sicrhau nad oedd pwysau ar adnoddau hanfodol. Byddai angen ystyried ffyrdd arloesol o ddelio â'r problemau amgylcheddol sylweddol ac amrywiol.

3.3 Nododd yr aelodau bod nodau Llywyddiaeth Sweden yn adlewyrchu pryderon sawl gwlad. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Rosander am ei friff llawn gwybodaeth. Roedd y Cynulliad yn croesawu'n fawr y profiad newydd o gael trafodaethau o'r fath cyn y llywyddiaeth. Byddai'n dymuno i'r Pwyllgor ystyried cynlluniau Llywyddiaeth Gwlad Belg a fyddai'n dechrau fis Gorffennaf 2001.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Tasglu'r Euro ar gyfer Cymru**

**Papur:** EUR-03-00(p.5)

4.1 Rhoddodd Peter Graham-Woollard, Cadeirydd Tasglu Euro Cymru, a John Casterton, Rheolwr y Tasglu, adroddiadau i'r Pwyllgor ar waith Tasglu'r Euro a sefydlwyd gan y Swyddfa Gymreig o dan arweinyddiaeth Peter Hain, y cyn Weinidog. Nod y Tasglu oedd sefydlu rhaglen weithredu a fyddai'n helpu i baratoi mentrau bach a chanolig (SMEs) yng Nghymru ar gyfer y datblygiadau yn Ewrop sy'n ymwneud ag achlysur lansio'r Euro.

4.2 Wrth weithredu'r rhaglen hon daeth i'r amlwg bod peth gwrthwynebiad i'r Euro a oedd wedi rhwystro cynnydd. Roedd amharodrwydd i dderbyn nad oedd gan y Tasglu unrhyw agenda wleidyddol ac mai 'agor llygaid' busnesau Cymru at fater yr Euro yn unig oedd eu gwaith. Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn awgrymu bod angen i'r Tasglu ddychwelyd at yr hanfodion. Nid oedd llawer o bobl am glywed am yr angen i baratoi ar gyfer yr Euro. Roedd y Tasglu wedi penderfynu adeiladu ar y wybodaeth a'r rhwydweithiau oedd yn bodoli a nodi 'llysgenhadon' busnes a chanddynt brofiadau yn Ewrop. Mewn 13 mis, byddai'r Euro yn disodli arian un ar ddeg o wledydd Ewrop; yn eu plith, ein cymydog agosaf, Iwerddon, a byddai dwy wlad arall, sef Ffrainc a'r Eidal, yn anfon cefnogwyr rygbi i Gaerdydd yn 2002. A fyddai busnesau Cymru yn barod i ddelio â hwy gan ddefnyddio'r Euro? Yn fwy cyffredinol, byddai angen i'r DU fod mewn sefyllfa i sicrhau bod SMEs yn achub ar y cyfle i ddelio'n effeithiol yn y farchnad unigol, ddigidol, fyd-eang yn 2002. Byddai'r rhai oedd yn hwyr neu'n araf yn ymateb i'r Euro yn colli allan.

4.3 Yn ystod y drafodaeth, cydnabuwyd nad oedd busnesau yn hoffi newid a’i fod yn well ganddynt rhoi’r mater hwn i’r naill ochr am y tro. Teimlwyd am fod llawer o sefydliadau gwahanol yn cynnig cyngor ac arweiniad i SMEs, bod angen dod o hyd i ffyrdd syml o gael gwybodaeth briodol. Awgrymodd yr Aelodau y byddai’n ddefnyddiol gweld sut roedd y ffynonellau gwybodaeth gwahanol yn cyd-fynd â’i gilydd. Cytunwyd i’r cyflwyniad fod yn ddefnyddiol iawn ac awgrymwyd y gellid elwa ar drafodaeth mewn sesiwn lawn ar barodrwydd Cymru i dderbyn yr Euro.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Siarter yr Undeb Ewropeaidd ar Iawnderau Hanfodol**

**Papur:** EUR-03-00(p.6)

5.1 Y gobaith oedd y byddai Win Griffiths, AS, yn bresennol yn y cyfarfod i drafod yr eitem hon gan iddo fod yn aelod o weithgor y DU ar y Siarter. Fodd bynnag, nid oedd yn gallu bod yn bresennol oherwydd fod ganddo fusnes seneddol pwysig. Cytunwyd felly i ohirio’r eitem tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor yn y gobaith y byddai Mr Griffiths yn gallu bod yn bresennol.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Papur:** EUR-02-00(min)

6.1 Oherwydd cyfyngiadau amser, ni chafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu hystyried gan y Pwyllgor. Byddent yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor

6.2 Daeth y cyfarfod i ben am 17.05pm.